
**GORCHYMYN ARBROFOL
CYNGOR SIR Y FFLINT
(MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG)
(GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU)
(DIWYGIAD RHIF 1)
2022**

**Katie Wilby,
Prif Swyddog
(Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint,
CH7 6NF**

GORCHYMYN ARBROFOL
CYNGOR SIR Y FFLINT
(MAES PARCIO STRYD NEWYDD, YR WYDDGRUG)
(GWAHARDD GYRRU) (AR WAHÂN I FYSIAU)
(DIWYGIAD RHIF 1)
2022

Mae Cyngor Sir y Fflint, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan Adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984"), fel y'i diwygiwyd, a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a'r holl bwerau galluogi eraill a roddwyd iddo, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.
2. Mae'r Gorchymyn hwn yn atodol i Gorchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Maes Parcio Stryd Newydd, Yr Wyddgrug) (Hwahardd Gyrru) (Ar Wahan I Fysiau) 2018 ("y Gorchymyn Gwreiddiol") sydd, yn ddarostyngedig fel y crybwyllir yma wedi hyn, yn parhau mewn grym ac effaith lawn.
3. Diwygir y Gorchymyn Gwreiddiol drwy hyn gan:-
 - O fewn Cymal 2 – bydd Erthygl 2 nawr yn dweud Erthygl 3
 - O fewn Cymal 3 – bydd Erthygl 1 nawr yn dweud Erthygl 2
 - O fewn Cymal 7 – bydd Erthygl 1 nawr yn dweud Erthygl 6
4. Mae'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a roddir gan unrhyw reoliadau a wnaed neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi'u gwneud dan Ddeddf 1984, neu gan neu dan unrhyw ddeddfiad arall.
5. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol.

6. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar 28 Hydref 2022 ac efallai bydd yn cael ei alw yn Orchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Maes Parcio Stryd Newydd, yr Wyddgrug) (Gwahardd Gyrru) (Ar wahân i Fysiau) (Diwygiad Rhif 1) 2022.
7. Bydd y Gorchymyn hwn yn parhau mewn grym am gyfnod heb fod yn hirach na 18 mis o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 6 y Gorchymyn hwn neu hyd nes mae'n cael ei wneud yn barhaol.
8. Yn unol ag adran 10(2) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, gall y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) os bydd yn ymddangos yn hanfodol ei bod yn angenrheidiol er budd symud traffig mewn modd cyflym, cyfleus neu ddiogel, neu i ddarparu cyfleusterau parcio addas a digonol ar y briffordd neu ar gyfer cadw neu wella amwynderau'r ardal mae unrhyw ddarn o ffordd a effeithir gan y Gorchymyn yn rhedeg drwyddi, addasu neu atal y Gorchymyn neu ei ddarpariaethau.

RHODDWYD SÊL GYFFREDIN)
CYNGOR SIR Y FFLINT)
yn y fan hon)
ar y 1 diwrnod hwn o Tachwedd 2022)
ym mhresenoldeb:-)



Y CADEIRYDD *Mered Gaswood.*

~~RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL~~

PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'S' followed by a horizontal line and a small flourish.

